

Oedfa Sul y Pasg

Arweinydd: Crist a gyfododd! Efe a gyfododd yn wir! Halelwia!

Hwn ydyw'r dydd y cododd Crist
gan ddryllio pyrth y bedd;
O cyfod, f'enaid, na fydd drist,
i edrych ar ei wedd.

Gweddiwn

O Dduw ein Tad,
wrth i ni ddathlu newyddion da Sul y Pasg,
down i'th addoli ac i ganu dy glod
oherwydd mae Crist yn fyw, Halelwia! Amen.

Croeso

Croeso cynnes i'r oedfa ar fore Sul yr Atgyfodiad.

Emyn (C. Ff.) 562: *'Crist a orchfygodd'*

Myfyrdod rhan 1

'Ar y dydd cyntaf o'r wythnos' – dydd y digwyddiad mwyaf deinamig, a thyngedfennol yn hanes y byd. Dydd digon rhyfedd oedd y dydd hwnnw, y dydd y cododd Iesu, ac mae'r codi hwnnw'n debyg i ddrama fawr. Mae'n rhaid i bob drama gael llwyfan, ac mae llwyfan i ddrama'r atgyfodiad – a'r llwyfan, yn ôl Efengyl Ioan, oedd gardd. Yn yr ardd, roedd bedd newydd nad oedd neb erioed wedi'i gladdu yno. Gŵr o'r enw Joseff o Arimathea oedd piau'r bedd. Nid ydym yn gwybod llawer am Joseff, heblaw'r ffaith ei fod yn hanu o Arimathea! Mae Luc yn dweud ei fod yn ddyn da a chyfiawn, ac nad oedd wedi cytuno â phenderfyniad y Cyngor i groeshoelio Iesu. Mae Ioan yn disgrifio Joseff o Arimathea fel 'disgybl cudd' oherwydd ei fod yn ofni'r Iddewon. Yn wir, roedd Joseff mor gudd fel nad oedd hyd yn oed Peilat yn gwybod am ei gysylltiad ag Iesu. Yn ôl y rheolau Iddewig, nid oedd corff neb a oedd newydd gael ei groeshoelio i fod i gael ei adael ar y groes dros nos, roedd rhaid iddo gael ei gladdu ar yr un diwrnod. Ac felly, yn hwyr y dydd, aeth Joseff o Arimathea at Beilat a gofyn am gorff Iesu. Lapiodd Joseff y corff gyda lliain gwyn a'i osod yn ei fedd ei hun, cofiwch! Roedd y bedd ar ddarn o dir a brynodd ar gyfer ei gladdedigaeth ei hun ac wedi'i naddu yn y graig. Yna, rholiodd garreg fawr dros geg y bedd ac aeth i ffwrdd. A dyna'r llwyfan wedi'i osod yn nrama fawr yr atgyfodiad.

Darlleniad: Ioan 19:38–42 (beibl.net)

'Wedyn, dyma Joseff o Arimathea yn mynd at Beilat i ofyn am ganiatâd i gymryd corff Iesu. (Roedd Joseff yn un o ddilynwyr Iesu, ond yn cadw'n ddistaw am y peth am fod ganddo ofn yr arweinwyr Iddewig.) Cafodd ganiatâd Peilat, a daeth a chymryd y corff. Roedd Nicodemus gydag e hefyd, sef y dyn oedd wedi mynd i weld Iesu ganol nos. Daeth Nicodemus â (tua chilogram o fyrr ac aloes, i'w ddefnyddio wrth rwymo corff Iesu gyda stribedi o liain. Dyma sut roedd yr Iddewon yn arfer claddu pobl. Roedd gardd wrth ymyl y man lle cafodd Iesu ei groeshoelio, ac roedd bedd newydd yn yr ardd – doedd neb erioed wedi'i gladdu ynddo o'r blaen. Am ei bod hi'n bnawn Gwener (y diwrnod cyn y dydd Saboth Iddewig), ac am fod y bedd mor agos, dyma nhw'n rhoi Iesu i orwedd yno.'

Myfyrdod rhan 2

Wedi gosod y llwyfan, rhaid i bob drama gael cymeriadau hefyd.

Y cymeriadau cyntaf y clywn amdanynt yw'r gwragedd, Mair Magdalen a'r Fair arall. Mae'r ddwy yma'n camu i'r llwyfan yn gynnar iawn, pan oedd y dydd ar wawrio. Doedden nhw ddim i fod yn yr ardd o gwbl mewn gwirionedd. Tresbaswyr oedden nhw, wedi mynd yno'n gynnar cyn i neb sylwi arnynt. Doedd fawr ddim y gallan nhw'i wneud; yn wir, doedd fawr ddim allai neb ei wneud. Dim ond sefyll yno yn y distawrwydd. Profiad sy'n gyfarwydd i nifer ohonon ni, siŵr o fod – sefyll mewn distawrwydd wrth ymyl bedd rhywun sy'n annwyl i ni. A dyna beth yn union wnaeth y gwragedd wrth fedd Iesu – sefyll yn dawel a chofio'n dyner ac yn hiraethus amdano. Hiraeth mewn distawrwydd. Mae distawrwydd yn nodweddu pob mynwent. Ac mae distawrwydd yn ein nodweddu ninnau pan awn ni yno hefyd. Ond nid yw distawrwydd yn golygu difaterwch. Er nad ydym yn siarad yn uchel pan ydym yn ddistaw, mae distawrwydd yn medru siarad cyfrolau.

Darlleniad: Mathew 28:1–7 (beibl.net)

‘Yna’n gynnar fore Sul, pan oedd y Saboth Iddewig drosodd, a hithau’n dechrau gwawrio, dyma Fair Magdalen a’r Fair arall yn mynd i edrych ar y bedd.

‘Yn sydyn roedd daeargryn mawr. Dyma angel yr Arglwydd yn dod i lawr o’r nefoedd a rholio’r garreg oddi ar geg y bedd ac eistedd arni. Roedd wyneb yr angel yn disgleirio’n llachar fel mellten, a’i dhillad yn wyn fel eira. Roedd y milwyr yn crynu gan ofn a dyma nhw’n llewygu.

‘Yna dyma’r angel yn dweud wrth y gwragedd, “Peidiwch bod ag ofn. Dw i’n gwybod eich bod chi’n edrych am Iesu, yr un gafodd ei groeshoelio. Dydy e ddim yma; mae wedi dod yn ôl yn fyw! Dyna'n union beth ddwedodd fyddai’n digwydd. Dewch yma i weld lle bu’n gorwedd. Yna ewch ar frys a dweud wrth ei ddisgyblion: “Mae Iesu wedi dod yn ôl yn fyw, ac mae’n mynd i Galilea o’ch blaen chi. Cewch ei weld yno.” Edrychwch, fi sydd wedi dweud wrthoch chi.’

Emyn (C.Ff) 550: ‘Pan oedd Iesu dan yr hoelion’

Myfyrdod rhan 3

A dyna gyflwyno cymeriadau cyntaf drama’r Atgyfodiad, sef y ddwy Fair yn sefyll yn ddistaw a hiraethus ger bedd Iesu. Ond fel y clywsoch, torrwyd ar draws y distawrwydd gan ddaeargryn o bopeth! Lle’r oedd distawrwydd, mae yna gyffro mawr. Ble’r oedd llonyddwch, mae yna gynnwrf. Yn union fel pe baen ni’n cysgu’n dawel ac yn esmwyth ac yn sydyn mae’n codi’n storm o fellt a tharanau a’r ’stafell yn cael ei goleuo drwyddi, a’i hysgwyd, a ninnau’n cael ein taflu oddi ar ein hechel. Daeargryn. Duw yn ysgwyd y ddaear, ac yn galw’r ddaear i ddihuno oherwydd bod dydd newydd wedi gwawrio. Bore newydd, y bore gorau a welodd y byd erioed. Caiff y gwragedd gwmni ar y llwyfan yn nrama’r atgyfodiad. *‘Dyma angel yr Arglwydd yn dod i lawr o’r nefoedd a rholio’r garreg oddi ar geg y bedd ac eistedd arni.’* Symud y garreg fawr, y maen, o ddrws y bedd. Onid hanes o ymdrechu i symud meini yw hanes y ddynoliaeth? Mae’r byd fel pe bai wedi gosod meini ar lwybr cynnydd erioed. Rhwystro llwyddiant. Rhwystro gobaith. Gosod maen ar lwybr cynnydd. Rhoddwyd sawl maen ar lwybr Iesu Grist er mwyn ceisio’i atal. Pan oedd yn faban bach newydd-anedig ym Methlehem, fe geisiodd Herod ei ladd, ond Herod fu farw yn y diwedd. Fe arweiniwyd Iesu i’r anialwch i gael ei demtio gan y diafol, ond chafodd y diafol ddim o’i ffordd. Nid oedd Herod yn gallu’i ladd. Nid oedd

y diafol yn gallu'i demtio. Nid oedd y groes yn gallu'i ddinistrio, ac nid oedd y bedd yn gallu'i gadw.

Dros dro y bu ymdeithgan marwolaeth y Groglith, oherwydd cafodd ei thagu gan gerddoriaeth fuddugoliaethus y Pasg. Yr hyn sy'n ein taro wrth ddarllen cofnod Mathew o ddrama'r Atgyfodiad yw'r sylw bod yr angel nid yn unig wedi symud y maen o geg y bedd ond hefyd wedi *eistedd* arno. Ac mae hynny'n arwyddocaol iawn. Mae'r ffaith fod yr angel wedi eistedd ar y maen yn golygu fod y maen wedi colli'i rym, wedi colli'i nerth a'i allu. O ganlyniad, nid oes maen y gellir ei osod mwyach ar unrhyw fedd. Pan ddrylliwyd pyrth y bedd, drylliwyd pyrth pob bedd.

Ond beth am feini sydd ynom ni sydd angen eu symud? Meini'n diffyg ffydd, ein balchder a'n difaterwch, y meini sydd wrth ddrws ein calonnau ninnau? Mae symud y meini hyn yn gallu bod yn waith ysgytwol a phoenus - ond fe all fod yn brofiad iachusol hefyd.

Yn naturiol, cafodd y gwagedd dipyn o ofn o weld hyn oll, a hynny'n gwbl ddealladwy! Ond fe aethant, mewn ofn a llawenydd mawr i ddweud wrth eraill bod lesu'n fyw. Nid llusgo'u traed, ond mynd ar frys. Ar frys mae cyhoeddi pob newyddion da. '*Efengyl tangnefedd o RHED dros y byd...*' Ar redeg mae cyhoeddi pob newyddion da! Mae yna *urgency* yno. A phwy sy'n fodlon gwadu bod angen newyddion da a gobeithiol yr atgyfodiad ar ein byd ni heddiw? Yng nghanol ei ofid, anobaith a dryswch. Mae'n fater o *urgency*.

Ond arhoswch, cyn i'r gwagedd adael llwyfan drama'r atgyfodiad, mae yna un arall i'w weld yno. Onid oes rhaid i bob drama gael prif gymeriad? A phwy yw'r prif gymeriad? Neb llai na Iesu Grist ei hun! Y Crist atgyfodedig. Y Crist byw. Mae lesu'n eu cyfarch gyda'r geiriau 'Henffych well!' h.y. llawenhewch! Neu, yn ôl un cyfieithiad 'Bore da!' A dyna beth oedd bore da os bu bore da erioed. Bore'r tragwyddol ddydd. '*Ewch a dywedwch*' meddai Iesu wrthynt. Mae'n hyfryd meddwl mai gwagedd oedd pregethwyr cyntaf yr Atgyfodiad. '*Ewch a dywedwch*' bod yr lesu'n fyw. Yn fyw ac yn rhydd. Nid bod y gwirionedd am lesu'n rhydd, ond bod lesu ei hun yn rhydd.

Nid oedd modd caethiwo'r Crist byw. Ac eto, mae yna duedd ynom erioed i geisio'i gaethiwo yn ein hadeiladau, yn ein ffenestri lliw, yn ein sefydliadau a'n cyfundrefnau; ei gaethiwo i'r Sul ac i un awr ar y Sul, ei gaethiwo i greddo neu lyfr. Mae caethiwo Crist yn gwneud i ni deimlo'n ddiogel rywfodd, oherwydd ei fod yn ein gafael ni. Ond er gwaethaf ein tueddiadau ni, nid yw lesu'n gadael ei hunan i gael ei gaethiwo gennym. Mae Crist yn rhy fawr i gael ei gaethiwo i unrhyw beth o wneuthuriad pobl. Daw'r Crist byw atom, yn ei ryddid, i'n galw i anturiaethau newydd, i fywyd newydd. Wrth ddathlu'r Pasg heddiw, camwn i lwyfan yr atgyfodiad, agorwn ein calonnau o'r newydd iddo fel y treiglir i ffwrdd y meini i gyd ac y daw yntau i'n bywyd i fyw.

Eryn (C. Ff.) 425: 'Agor ein llygaid' (1.58)

Gweddi

Gweddiwn:

O Dduw ein Tad,
a thad ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist,
wrth i ni ddathlu newydd da Sul Y Pasg,
diolchwn i Ti am yr Ŵyl ryfeddol hon.
Dyma ŵyl, nid yn unig i ni, ond gŵyl y gwyliau i gyd.

Moliannwn di am ryfeddod y Pasg -
dydd i ddathlu, rhyfeddu a diolch,
dydd sy'n newid ein ffordd o weithredu,
dydd sy'n newid ein ffordd o fyw,
dydd sy'n newid popeth.

Gorfoleddwn ym muddugoliaeth Iesu Grist.
Cydnabyddwn Arglwydd, nad ydym yn deilwng
o addewid rhyfeddol y dydd hwn.

Fel y disgyblion gynt, rydym ninnau'n hwyrfrydig
i gredu'r dystiolaeth am y bedd gwag.

Gweddiwn dros bawb sy'n cael ffydd yn anodd,
y rhai sy'n dymuno credu ond yn methu trechu eu hamheuron.
Rho i ni heddiw wefr y dathlu fel bod ein hanghrediniaeth yn troi'n grediniaeth,
ein hamheuron yn troi'n sicrwydd,
a'n diffyg sêl yn dystiolaeth gadarnach dros ein ffydd.
Bywha dy eglwys, O Arglwydd, â grym yr atgyfodiad:
adnewyddai bywyd a grymusa'i chenhadaeth.

Galluoga ni bob un i ddathlu'r Ŵyl hon mewn llawenydd,
i fyw yng ngrym ac addewid yr atgyfodiad,
ac o wybod bod Iesu'n fyw,
gwybod y cawn ninnau fyw ynddo ef
yng ngogoniant ei deyrnas dragwyddol yn y nef.

Cyflwynwn ein gweddïau yn enw Iesu Grist ein Harglwydd,
yr hwn yw'r Atgyfodiad a'r bywyd, a'r hwn a'n dysgodd i weddio efo'n gilydd:
Ein Tad

Emyn:

Y Cymun

Emyn (C.Ff.) 558: *'Cydlawenhawn, cyfododd Crist o'i fedd'*

Gweddi i gloi

Ewch nawr â chwerthin yn eich llygaid,
â gwên ar eich gwefusau,
cân yn eich calon
â llawenydd yn eich enaid,
a rhannwch y gorfoledd mae'r Crist byw wedi'i roi i ni. Amen